# CREU CV

Llunio CV sy'n gweithio i chi




gyrfacymru.llyw.cymru

0800 028 48 44

Cymru'n Gweithio
Working Wales

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mae Gyrfa Cymru wedi cynhyrchu'r canllaw hwn i'ch helpu gyda chyngor ac awgrymiadau ar sut i greu CV.

Y peth pwysig i gofio yw y dylai CV fod yn adlewyrchiad ohonoch chi, eich sgiliau, eich rhinweddau, eich profiad a'ch cymwysterau. Nid oes un ffordd gywir o wneud hyn ond gobeithio y bydd y canllaw hwn yn ddefnyddiol i chi.

Gellir defnyddio'r llyfryn hwn ar wahân neu gyda'r adran Creu CV ar gyrfacymru.llyw.cymru.

Hefyd ar y wefan fe welwch gyngor ar sut i wneud cais am swyddi, technegau cyfweld ac amrywiaeth o wefannau swyddi.

## Cynnwys


03 Beth yw CV?
04 Beth i'w gynnwys yn eich CV
06 Targedu eich CV
06 Pasio trwy'r feddalwedd
07 Y cyfryngau cymdeithasol a CVs
07 Mathau ac Enghreifftiau o CVs
19 Mathau Eraill o CVs
20 CV Fideo
23 Mathau Eraill o CVs Creadigol
24 Cynnwys Eglurhaol
27 Rhestr wirio beth i'w wneud a beth i'w osgoi
28 Cymorth gan Gyrfa Cymru
29 Nodiadau




# Beth yw CV?

Ystyr CV yw Curriculum Vitae. Mae llawer o gyflogwyr yn dal i ofyn am un pan fyddwch chi'n gwneud cais am swydd.
Bydd CV da yn cynnwys gwybodaeth am eich sgiliau allweddol, profiad gwaith, cyflawniadau addysgol a manylion am sut i gysylltu â chi.
Edrychwch ar yr hysbyseb swydd a'r sgiliau a'r profiadau y mae'r cyflogwr yn gofyn amdanynt. Lle'n bosib, cofiwch gynnwys y rhain yn eich CV.

## Pam mae CV yn parhau i fod yn bwysig

Mae llawer o gwmnïau'n defnyddio ceisiadau ar-lein, cyfweliadau wedi'u recordio'n ddigidol a chwestiynau sgrinio yn lle CVs. Mae rhai cyflogwyr yn credu bod y ffyrdd eraill hyn o recriwtio yn decach ac yn well am ddewis y person cywir ar gyfer y swydd. Mae yna lawer o resymau pam mae llunio CV da yn dal yn bwysig iawn:

- Mae llawer o gyflogwyr, mawr a bach, yn dal i ddefnyddio CVs
- Mae llunio CV yn ffordd dda o wneud i chi feddwl am eich sgiliau, cryfderau, profiad a chyflawniadau. Bydd ysgrifennu'r rhain i lawr yn eich helpu gyda ffurflenni cais a chyfweliadau yn ogystal â chynllunio eich gyrfa

## Pryd fydden i'n defnyddio fy CV?

- Ceisiadau am Swydd - bydd llawer o gyflogwyr yn gofyn am gopi o'ch CV pan fyddwch yn gwneud cais am swydd. Peidiwch ag anfon CV yn unig – cofiwch gynnwys llythyr eglurhaol neu e-bost bob tro os ydych chi'n gwneud cais ar-lein
- Cwblhau Ffurflen Gais - bydd eich CV yn eich helpu i lenwi ffurflenni cais trwy ddarparu'r holl fanylion a'r dyddiadau am eich hanes addysg a chyflogaeth
- Anfon CV Ar Hap - os ydych yn cysylltu â chyflogwyr i weld a oes unrhyw swyddi ar gael gallwch naill ai anfon eich CV gyda llythyr eglurhaol neu alw heibio gyda chopi
- Cysylltiadau Ffôn - bydd rhai cyflogwyr yn rhoi cyfweliad cychwynnol i chi dros y ffôn. Bydd cael eich CV wrth law yn rhoi llawer o'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch
- Dull atgoffa ar gyfer cyfweliad - gall eich CV helpu gyda pharatoi ar gyfer cyfweliad. Edrychwch ar yr hyn rydych chi wedi'i ddweud amdanoch chi'ch hun cyn i chi fynd am eich cyfweliad!

# Beth i'w gynnwys yn eich CV

## Manylion cyswllt

Dylech gynnwys eich enw llawn, eich cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn cyswllt. Defnyddiwch gyfeiriad e-bost sy'n swnio'n broffesiynol, er enghraifft john.jones@myemail.com.

## Proffil personol

Mae angen i'ch Proffil Personol fod tua 4 neu 5 llinell am eich prif gryfderau a sgiliau. Gallech chi dynnu sylw at gyflawniad allweddol yma os yw'n berthnasol i'r swydd rydych chi'n gwneud cais amdani.
Os ydych chi'n cael anhawster adnabod eich sgiliau a'ch cryfderau, ewch i gyrfacymru.llyw.cymru a chwblhau ein Cwis Buzz.
Darllenwch y swydd ddisgrifiad a'n Gwybodaeth Am Swyddi i ganfod pa gryfderau a sgiliau sy'n cyd-fynd â'r rôl yr ydych yn gwneud cais amdani.

## Sgiliau

Ar gyfer rhai mathau o CV, rydych chi'n cynnwys adran sgiliau sy'n rhestru eich sgiliau allweddol. Dyma'r sgiliau rydych chi wedi'u dysgu ac am eu hamlygu i'r cyflogwr.

Edrychwch ar y disgrifiad swydd a cheisiwch gynnwys y sgiliau y mae'r cyflogwr yn chwilio amdanynt. Gallwch gynnwys:

- Sgiliau arbenigol fel pecynnau TG neu sgiliau eraill sy'n benodol i'r swydd honno
- Sgiliau cyffredinol fel cyfathrebu neu waith tîm

Edrychwch ar ein tudalen Mathau o CVs i ddysgu pa fathau o CV sydd angen adran sgiliau.

## Cyflogaeth

Gan amlaf, byddech yn trefnu eich swyddi o'r rhai mwyaf diweddar i'r hynaf. Er mwyn ei gadw'n berthnasol ac i arbed lle, efallai y byddwch ond yn cynnwys y 5 neu 6 swydd ddiwethaf neu'r 10 neu 15 mlynedd diwethaf o brofiad.
Cynnwys:

- Eich teitl swydd
- Enw'r cwmni a'r lleoliad gwaith (nid y cyfeiriad llawn)
- Dyddiadau dechrau a gorffen eich cyflogaeth
- Rhestr o'r dyletswyddau a gyflawnwyd gennych

## Addysg a chymwysterau

Rhowch eich cymwysterau yn y ffordd yma:

- Dechreuwch gyda'ch cymhwyster diweddaraf a/neu'r lefel uchaf o gymhwyster
- Nodwch y cymwysterau mwyaf perthnasol i'r swydd
- Nodwch y cymhwyster, y flwyddyn cyflawni, ac enw'r darparwr

## Hyfforddiant

Dylech gynnwys unrhyw hyfforddiant perthnasol fel:

- Cyrsiau byr fel Hylendid Bwyd neu Iechyd a Diogelwch
- Trwyddedau neu dystysgrifau
- Hyfforddiant yn y swydd
- Dysgu yn y cartref neu ar-lein
- Dosbarthiadau nos

## Gwirfoddoli a phrofiad gwaith

Gall gwaith gwirfoddol neu brofiad gwaith di-dâl ychwanegu gwerth at eich CV. Maent yn dangos i gyflogwyr y sgiliau a'r profiad ychwanegol rydych wedi'u hennill. Dylech gynnwys:

- Enw'r elusen neu'r cyflogwr
- Dyddiadau dechrau a gorffen
- Rhestr ar ffurf pwyntiau bwled o'r tasgau a gyflawnwyd gennych bob dydd

## Gwybodaeth ychwanegol

Defnyddiwch yr adran hon i ychwanegu unrhyw wybodaeth berthnasol arall yn cynnwys:

- Chwaraeon rydych chi'n eu gwneud neu'n eu cefnogi
- Gweithgareddau cymunedol rydych chi'n ymwneud â nhw
- Diddordebau a hobïau
- Cyflawniadau a gwobrau
- Aelodaeth o sefydliadau proffesiynol
- Trwydded yrru
- Datgelu anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol (dewis personol yw hyn)

Cadwch yr adran hon yn fyr ac yn berthnasol i'r swydd yr ydych yn gwneud cais amdani.

## Geirdaon

Nodwch y geiriau: Mae geirdaon ar gael ar gais.
Fel arfer bydd angen i chi ddarparu o leiaf 2 eirda. Peidiwch a nodi manylion eich geirdaon yn y CV, dim ond eu cael yn barod.
Gofynnwch i'r bobl yr hoffech eu defnyddio fel canolwyr a ydynt yn fodlon rhoi geirda i chi. Gallai canolwyr posibl gynnwys:

- Cyflogwr – cyn-gyflogwr neu un presennol
- Athro/Athrawes, tiwtor neu ddarlithydd
- Gweithiwr ieuenctid
- Elusen lle rydych wedi gwirfoddoli
- Rhywun y gwyddoch y gallant roi geirda i chi (nid perthynas)

## Targedu eich CV

CV wedi'i dargedu yw CV a ysgrifennwyd ar gyfer y swydd benodol yr ydych yn gwneud cais amdani. Mae'n amlygu'r sgiliau a'r profiad sy'n berthnasol i'r swydd honno. Bob tro y byddwch yn gwneud cais am swydd, dylech deilwra eich CV i fod yn fwy perthnasol i'r swydd benodol honno. Mae gennych well siawns o gael cyfweliad pan fyddwch yn ei gwneud yn glir bod y sgiliau a'r profiad sydd gennych yn cyfateb neu'n cyd-fynd yn agos â'r gofynion a nodir yn y swydd wag.

## Pasio trwy'r feddalwedd

Mae llawer o gwmnïau mawr yn defnyddio meddalwedd recriwtio i ddidoli CVs i benderfynu a ydych chi'n symud ymlaen i'r cam nesaf. Fe'i gelwir weithiau yn feddalwedd Dosrannu CV's.
Mae'r meddalwedd yn sganio'ch CV ac yn chwilio am eiriau allweddol, teitlau swyddi yn ogystal â gwybodaeth arall i weld a yw'n cyfateb i ofynion y swydd.
Awgrymiadau da i basio trwy'r feddalwedd yma:

- Cofiwch gynnwys eiriau allweddol sy'n cyd-fynd â'r hysbyseb swydd yn eich adrannau sgiliau a phrofiad a'ch proffil personol
- Defnyddiwch fformat CV syml a defnyddiwch benawdau safonol y bydd y feddalwedd yn eu hadnabod, fel Cyflogaeth, Profiad Gwaith, Sgiliau ac ati.
- Ceisiwch osgoi defnyddio tablau oherwydd efallai na fyddai'r feddalwedd yn eu deall
- Trefnwch eich addysg a phrofiad gwaith/cyflogaeth o'r mwyaf diweddar i'r hynaf
- Gallwch arbed eich CV ar ffurf PDF, ond peidiwch ag arbed fel delwedd wedi'i sganio gan na all y feddalwedd ddarllen y rhain



## Y Cyfryngau cymdeithasol a CVs

Efallai y bydd cyflogwyr yn edrych ar eich proffiliau cyfryngau cymdeithasol pan fyddwch chi'n gwneud cais am swydd. Mae hyn yn wir hyd yn oed os gwnaethoch chi gais gan ddefnyddio CV.
Ystyriwch ddileu hen gyfrifon nad ydych chi'n eu defnyddio neu bostiadau y byddai'n well gennych chi bod cyflogwyr ddim yn eu gweld.
Bydd cael set dda, gyfoes, o broffiliau cyfryngau cymdeithasol yn eich helpu i ddod o hyd i swydd. Bydd rhai cyflogwyr yn defnyddio cyfuniad o'ch proffiliau cyfryngau cymdeithasol a'ch CV.
Ewch i'n tudalen defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i chwilio am swyddi.

## Mathau ac enghreifftiau o CVs

Dylech bob amser deilwra'ch CV i'r swydd yr ydych yn gwneud cais amdani. Ar gyfer rhai swyddi ac amgylchiadau, mae math o CV sy'n gweithio orau. Rhai mathau poblogaidd o CV yw CVs.

- Cronolegol
- Seiliedig ar sgiliau
- Ymadawyr ysgol
- Technegol
- Academaidd
- Dysgu
- Cyfreithiol
- Fideo
- CVs Creadigol eraill (infograffig, ar-lein ac ati)

## CV cronolegol

Rydych chi'n defnyddio CV cronolegol i gyd-fynd a'ch profiad gwaith a'ch cymwysterau â'r swydd rydych chi'n gwneud cais amdani. Gall fod yn fformat CV da i'w ddefnyddio pan fyddwch chi'n gwneud cais am swydd newydd yn yr un maes rydych chi eisoes yn gweithio ynddo.

Dylech restru manylion cyflogaeth ac addysg mewn trefn gronolegol gan ddechrau gyda'r mwyaf diweddar i'r hynaf.

Gyda'r math hwn o CV, gallwch ddangos eich hanes gwaith, eich cyfrifoldebau, cyflawniadau ac addysg berthnasol yn glir.

Awgrymiadau da:

- Wrth gynnwys cymwysterau a phrofiad gwaith, gwnewch yn siwr eu bod yn cyd-fynd â'r swydd rydych chi'n ymgeisio amdani
- Dylech gynnwys cofnodion am unrhyw fylchau yn eich hanes gwaith. Dangoswch eich bod yn gwneud rhywbeth defnyddiol yn ystod y cyfnodau hyn, er enghraifft "gwirfoddoli" neu "chwilio am waith"

Cadwch mewn cof y meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd rydych chi'n gwneud cais amdani. Ceisiwch ymdrin â'r rhain yn eich adran profiad gwaith neu'ch adran sgiliau a gwybodaeth ychwanegol.



**Hannah Jones**
Hannahjones999@yahoomail.com
07777555999
Hannah Jones on LinkedIn

### Proffil personol

Rheolwr Arlwyo llwyddiannus gyda 17 mlynedd o brofiad yn y sector gwasanaethau bwyd. Arweinydd tîm profedig gyda hanes o droi siopau arlwyo llai proffidiol yn rhai llwyddiannus. Blynyddoedd lawer o brofiad o fentora cydweithwyr iau, gan sicrhau bod cefnogaeth, cymhelliant ac arweiniad ar gael. Unigolyn hynod drefnus a brwdfrydig, sy'n awyddus i barhau i ffynnu a datblygu o fewn busnes llwyddiannus, aml-genedlaethol.

### Hanes cyflogaeth

**Rheolydd Ardal, Bakehouse Co., Gogledd Cymru, 2016 – presennol**

- Rheoli grŵp o 12 o siopau arlwyo yn rhanbarth Gogledd Cymru
- Cynnydd cyffredinol o 15% mewn cynhyrchiant rhwng 2017-2022 mewn canghennau lleol
- Lleihau gwastraff bwyd 10% yn gyffredinol ar draws siopau trwy gyflwyno gostyngiadau diwedd dydd ar gynhyrchion trosiant uchel
- Gwella cyfraddau cadw staff drwy gyflwyno amrywiaeth o gymhellion a gwobrau i staff
- Cynllunio hyrwyddiadau gwerthu ac asesu eu heffeithiolrwydd
- Asesu perfformiad yn erbyn targedau gwerthu
- Dyrannu a monitro cyllidebau unigol
- Rhoi cynlluniau gwella ar waith mewn cydweithrediad â rheolwyr a staff lleol
- Hyfforddi a mentora darpar rheolyddion o fewn y Cwmni

**Rheolwr Siop, Bakehouse Co., Northtown, 2013 – 2016**

- Goruchwylio tîm o staff, gan gynnwys rheoli rota shifft
- Asesu lefelau stoc ac archebu stoc newydd
- Rheoli cyfrif stoc ac arian parod i mewn ac allan o'r siop

- Hyfforddi staff newydd a staff presennol ar bob agwedd o waith yn y siop, gan gynnwys hylendid bwyd a iechyd a diogelwch

**Goruchwylydd Shifft, Jimmy's Bakery, Northtown, 2012 – 2013**
- Goruchwylio a hyfforddi staff ar bob agwedd o waith, gan gynnwys iechyd a diogelwch
- Cyfrif arian yn ôl y galw
- Paratoi bwyd
- Gweini cwsmeriaid
- Glanhau ardal y gegin a blaen y siop
- Cadw at yr holl weithdrefnau iechyd a diogelwch a hylendid

**Aelod o'r Tîm, Jimmy's Bakery, Northtown, 2005 – 2012**
- Paratoi amrywiaeth o fwyd, gan gynnwys peis, cacennau a bara
- Gweini cwsmeriaid a chymryd taliadau
- Glanhau ardal y gegin a blaen y siop
- Cadw at yr holl weithdrefnau iechyd a diogelwch a hylendid

## Addysg/Cymwysterau

**Distance Training UK, 2020 - 2021**
- NVQ lefel 5 Arwain a Rheoli, rhagoriaeth, CMI, a gyflawnwyd yn 2021

**Northtown High School, 2000 – 2007**
- Safon Uwch: Saesneg A, Gwleidyddiaeth B, Hanes C, a gyflawnwyd yn 2007
- Naw TGAU gradd C ac uwch gan gynnwys Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, a gyflawnwyd yn 2005

## Gwobrau
- Gwobr Rheolwr y flwyddyn yn Bakehouse Co. cyflawnwyd yn 2021

**Hobïau/Diddordebau**
- Aelod o Ford Gron Bigtown

**Geirdaon ar gael ar gais.**



## CV seiliedig ar sgiliau

Mae'r math hwn o CV yn ddefnyddiol os oes gennych fylchau yn eich hanes gwaith neu os nad oes gennych lawer o brofiad gwaith. Mae hefyd yn ddefnyddiol os ydych chi'n gwneud cais am swydd mewn sector swyddi gwahanol i'r un rydych chi wedi bod yn gweithio ynddo.
Mewn CV sy'n seiliedig ar sgiliau, rydych chi'n canolbwyntio ar y sgiliau rydych chi wedi'u datblygu mewn gwahanol feysydd yn eich bywyd. Gallwch alw'r rhain yn sgiliau trosglwyddiadwy.
Cofiwch dynnu sylw at y sgiliau hynny rydych chi wedi'u datblygu sy'n cyd-fynd â'r sgiliau y gofynnwyd amdanynt yn yr hysbyseb swydd neu'r disgrifiad swydd.
Awgrymiadau da:
- Rhowch eich proffil sgiliau yn agos at y brig
- Ceisiwch ddefnyddio'r un iaith â'r disgrifiad swydd i ddangos eich bod wedi ei ddarllen a'ch bod yn cyd-fynd ag ef. Ond peidiwch â'i gopïo gair-am-air
- Dywedwch ble rydych chi wedi defnyddio'ch sgiliau mewn sefyllfaoedd bywyd
- Er mwyn arbed lle, dylech gynnwys dim ond y swyddi mwyaf perthnasol yn eich adran Hanes Cyflogaeth

**Thomas Rees**
53 Church Crescent, Oldtown, SA99 2ZZ
thomasprees35@gmail.com
Tel:01999 999666 Mob: 07999123456

## Proffil personol

Unigolyn gweithgar, llawn cymhelliant gyda nifer o flynyddoedd o brofiad cyflogaeth a phrofiad gwirfoddol. Yn meddu ar ystod o sgiliau gweinyddol a TGCh gan gynnwys defnydd cymwys o MS-Office 365, ysgrifennu adroddiadau yn effeithiol, trefnu a rheoli amser. Gweithiwr tîm ac arweinydd effeithiol sy'n ymgysylltu'n dda â phobl o bob oed ac o gefndiroedd amrywiol, gan ddefnyddio sgiliau cyfathrebu a gwrando da. Yn gobeithio cymhwyso rhai o'r sgiliau a ddysgwyd mewn diwydiannau amrywiol i rôl newydd a chyffrous o fewn Gweinyddiaeth Busnes.

## Sgiliau

### Cyfathrebu

- Ysgrifennu adroddiadau fel Goruchwyliwr Gofal yn Newhomes Ltd
- Ysgrifennu cofnodion cyfarfodydd fel Ysgrifennydd elusen leol i blant
- Cynhyrchu aseiniadau i safon uchel yn ystod hyfforddiant Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Arwain trafodaethau yn ystod cyfarfodydd ymddiriedolwyr fel Ysgrifennydd Elusen
- Darparu cyfarwyddiadau a gwybodaeth leol i ymwelwyr â Pharc Gwledig Crofts

### Sgiliau TGCh

- Defnyddiwr cymwys o MS-Office 365 Suite, gan gynnwys Word, Outlook, PowerPoint ac Excel
- Defnyddio pecyn cronfa ddata mewnol i gofnodi gwaith achos tra yn Newhomes Ltd

### Sgiliau Trefnu

- Cydlynu digwyddiadau codi arian a phartïon plant
- Trefnu gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys Hobbycraft a nosweithiau coginio

### Gwaith Tîm

- Cydweithio gyda chydweithwyr ym mharc gwledig Crofts a rhannu tasgau gwaith
- Aelod tîm effeithiol o fewn tîm mawr o staff gofal

## Hanes cyflogaeth

**Goruchwylydd Gofal, Newhomes Ltd, Anytown, 2018 – 2021**

- Goruchwyliaeth effeithiol a chefnogol o dîm o gynorthwyydd gofal a defnyddio Microsoft Excel i greu rotas staff
- Darparu hyfforddiant i staff ar faterion fel iechyd a diogelwch a chodi a chario
- Cofnodi gwaith achos a chynhyrchu adroddiadau rheoli gan ddefnyddio Microsoft Excel a Microsoft Access
- Darparu gofal rhagorol i ddefnyddwyr gwasanaethau
- Trefnu gweithgareddau cymdeithasol i ddefnyddwyr gwasanaeth

**Cynorthwyydd Gofal, New Homes Ltd, Anytown, 2013 – 2018**

- Darparu gofal personol rhagorol
- Trefnu gweithgareddau hamdden i ddefnyddwyr gwasanaeth

**Gofalydd tir, Parc Gwledig Crofts, Anytown, 1992 – 2013**

- Torri glaswellt, coed, llwyni a gwrychoedd, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer a chyfarpar
- Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i ymwelwyr

## Addysg/Cymwysterau

**Gwasanaethau Hyfforddi Anytime, 2014 – 2016**

- Diploma lefel 4 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Teilyngdod/ Rhagoriaeth, OCR, a gyflawnwyd yn 2016
- Diploma lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Rhagoriaeth, OCR, a gyflawnwyd yn 2015

**Ysgol Gyfun Unrhywle, 1985 – 1990**

- TGAU gan gynnwys Gwaith Coed A, Saesneg C, Gwyddoniaeth Dyfarniad Deuol CC, a gyflawnwyd 1990

## Gwirfoddoli

- Ysgrifennydd a threfnydd digwyddiadau Smile and Play, 1994 - presennol

**Geirdaon ar gael ar gais.**

## CV ymadawyr ysgol

Mae cyflogwyr yn gwybod na fydd gennych chi lawer o brofiad gwaith. Mae CV ymadawyr ysgol yn amlygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd gennych chi sy'n berthnasol i'r swydd.
Meddyliwch am yr holl sgiliau rydych chi wedi'u hennill drwy'r ysgol, lleoliadau profiad gwaith, gwaith anffurfiol fel gwarchod plant neu hyd yn oed gwirfoddoli. Cofiwch gynnwys y sgiliau mwyaf perthnasol ar gyfer y swydd.
Awgrymiadau da:

- Ychwanegwch broffil personol dim ond os yw'ch cyflogwr yn ei ddisgwyl, felly gwnewch eich ymchwil
- Peidiwch ag ychwanegu llawer o fanylion amherthnasol i lenwi lle. Mae CV cryno, o ansawdd da yn well
- Meddyliwch am gyflwyniad. Gwnewch y defnydd gorau o le gan gadw'r cynllun yn gyson.
- Ystyriwch ddefnyddio pwyntiau bwled gan y gallant eich helpu i fod yn gryno



**Stephen Jameson**
11 Stone House Court, Porth, CF1 5SD
Ebost: stevej@examplemail.co.uk
Ffôn: 01995 387621 Symudol: 07800 0001111

### Proffil personol

Unigolyn dibynadwy, empathig a phroffesiynol sy'n edrych ymlaen at ddechrau gweithio a dysgu sgiliau newydd. Cyfathrebwr effeithiol sy'n amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar. Unigolyn hyblyg sy'n gweithio'n dda fel rhan o dîm ond yr un mor hyderus yn gweithio'n unigol. Gwybodaeth a dealltwriaeth glir o bwysigrwydd GDPR a rheoliadau diogelu.

**Sgiliau**

- Prydlon a dibynadwy
- Da am gadw nodiadau a chofnodion
- Sgiliau TG da
- Da am weithio fel rhan o dîm – rwy'n aelod o fy nhîm rygbi lleol
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog

**Cyflogaeth a Phrofiad Gwaith**
Cynorthwyydd Gwerthu, Swydd ar ddydd Sadwrn – Porth Town Sports Shop, Mehefin 2021 - presennol

- Arddangos stoc
- Delio gyda chwsmeriaid
- Cymryd taliadau gan gynnwys taliadau cardiau debyd a chredyd

**Cartref Gofal Hillhouse, Y Porth, Mehefin 2021**
Fe wnes i gwblhau pythefnos o brofiad gwaith mewn cartref gofal i'r henoed. Roedd gen i ddiddordeb gan fod fy mam-gu yn byw gyda ni ac rwy'n helpu gyda'i gofal weithiau. Roedd y tasgau'n cynnwys:

- Helpu amser bwyd
- Sgwrsio a chwarae gemau gyda rhai preswylwyr
- Arsylwi gwaith y cynorthwywyr gofal

**Addysg/Cymwysterau**
Ysgol Gyfun Niwbwrch – 2017-2022

- TGAU: Saesneg Gradd C, Cymraeg Gradd C, Hanes Gradd D, Gwyddoniaeth Dyfarniad Dwbl Gradd C/D, cyflawnwyd 2022
- Gwobr Arian ASDAN, cyflawnwyd 2022

**Hobïau/Diddordebau**

- Pêl droed – chwarae i dîm pêl-droed lleol
- Karate - wedi ennill gwregys du

**Geirdaon ar gael ar gais.**



## CV technegol

Os ydych chi'n gwneud cais am rolau mewn TG (Technoleg Gwybodaeth) fel Datblygydd Gwe neu gymwysiadau, neu ymgynghorydd TG, defnyddiwch fformat CV technegol.
Mae'r CV hwn yn amlygu sgiliau technegol, profiad ac arbenigedd.
Awgrymiadau da:

- Dechreuwch gyda phrofiad ac arbenigedd allweddol yn gyntaf. Rhowch fwy o fanylion am eich sgiliau technegol a'ch cymwyseddau o dan "Sgiliau Allweddol"
- Amlygwch sgiliau cyfathrebu a datrys problemau
- Cofiwch am eich cynulleidfa. Ysgrifennwch ar gyfer Rheolyddion AD yn ogystal â gweithwyr TG proffesiynol

**Jessie Isaacs**
Jisaacs3@gmail.com
07111321123
Jessie Isaacs on LinkedIn

## Proffil personol

Datblygydd meddalwedd medrus a phrofiadol iawn gyda dros 10 mlynedd o brofiad ym maes datblygu apiau gwe ac apiau symudol. Defnyddiwr effeithiol o amrywiaeth o systemau gweithredu, offer datblygu ac ieithoedd. Unigolyn dyfal a phenderfynol gyda sgiliau canfod diffygion, datrys problemau ac ysgrifennu adroddiadau eithriadol sy'n awyddus i ennill rôl newydd a heriol o fewn sefydliad sy'n arwain y diwydiant.

## Sgiliau TG

- Offer datblygu: LabVIEW, MATLAB, Xcode, Simulink, WINDEV/WEBDEV, OrCAD, MPLAB, React Native, Onsen UI a ModelSim
- Pecynnau: MS Office online 365 ac Adobe Creative Suite gan gynnwys Dreamweaver a Photoshop
- Ieithoedd Rhaglennu: Java, Kotlin, Swift, C ++, SQL, TLearn, HTML, CSS a XML
- Systemau Gweithredu: Android, iOS, Windows a Linux

## Hyfforddiant/sgiliau eraill

- Tystysgrif Sylfaen BCS mewn DevOps
- Tystysgrif Ymarferydd BCS mewn Hanfodion Datblygu Systemau
- PRINCE2 Sefydliad Agile ac ardystiad Ymarferydd

## Hanes cyflogaeth

**Datblygydd Stac Llawn, Longlife Health Group UK Ltd, Southtown, 2018 - 2022**

- Codio gwefan y sefydliad a rhaglenni cysylltiedig ar ochr y gweinydd a datblygu cyfres o gymwysiadau symudol wedi'u cynllunio i fonitro iechyd personol
- Adeiladu systemau API a systemau integreiddio data eraill
- Adeiladu rhyngwynebau defnyddwyr ar gyfer apiau gwe ac apiau symudol cwmnïau yn unol â llinellau amser datblygu gweithgaredd
- Goruchwylio gwaith datblygwyr iau a threfnu llwythi gwaith
- Asesu gofynion cleientiaid a thrafod canlyniadau cyraeddadwy
- Prototeipio a phrofi.



**Datblygydd Ochr Gefn, Systemau Telephonica, Meadowtown, 2011 – 2018**

- Codio gwefan y cwmni a chymwysiadau cysylltiedig gan ddefnyddio JavaScript, C++ a PHP
- Creu nifer o gronfeydd data ac offer integreiddio
- Adeiladu system gwasanaeth newydd yn seiliedig ar gwmwl i wneud y gorau o gyflymder a pherfformiad y wefan
- Profi meddalwedd yn y maes

**Datblygydd Meddalwedd Iau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Unrhywsir, Unrhywdref, 2009 - 2011**

- Dadansoddi systemau gyda chwsmeriaid i benderfynu ar eu gofynion
- Wedi cyfrannu at ddatblygu meddalwedd ar gyfer yr Adran Casglu Sbwriel ac Ailgylchu i reoli casgliadau sbwriel
- Profi meddalwedd maes gyda thimau ar y safle
- Creu system ar gyfer rheoli bygiau a thrwsio a gweithredu atgyweiriadau yn ôl yr angen

**Cynorthwyydd Gwasanaeth Bwyd, Burgers and Co., canghennau Groveton a Bigtown, 2004 – 2009**

- Cymryd archebion a gweini cwsmeriaid
- Glanhau byrddau a chadw'r bwyty'n lân ac yn daclus
- Cynnal safonau iechyd a diogelwch a hylendid bwyd

## Addysg/cymwysterau

**Prifysgol Bigtown, 2006 - 2009**

- BSC (Anrh) Peirianneg Meddalwedd. Dosbarth: 2:1
- Roedd y modiwlau'n cynnwys modelu systemau cyfrifiadurol, datblygu gwasanaethau gwe a phrofi meddalwedd
- Prosiect blwyddyn olaf ar ddatblygu llwyfan ar-lein hawdd ei ddefnyddio ar gyfer cwmnïau dosbarthu bwyd
- Cyflawnwyd 2009

**Coleg Heathertown, 2004 – 2006**

- Safon Uwch: Cyfrifiadura A, Mathemateg B, Ffiseg B, cyflawnwyd yn 2006

**Ysgol Gyfun Heathertown, 1999 – 2004**

- Naw TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Chyfrifiadureg, cyflawnwyd 2004

**Geirdaon ar gael ar gais.**

# Mathau eraill o CV

## CV academaidd

Mae CV academaidd yn canolbwyntio ar gyflawniadau addysgol. Defnyddiwch CV academaidd i wneud cais am swyddi darlithio neu ymchwil.
Mae CVs academaidd yn tueddu i fod yn hirach na mathau eraill o CVs. Mae hyn am eu bod yn cynnwys adrannau ar:
- Waith cyhoeddedig
- Profiad addysgu
- Ymchwil rydych chi wedi'i wneud
- Cynadleddau a chyflwyniadau rydych chi wedi bod yn rhan ohonynt

Awgrymiadau da:
- Does dim terfyn tudalen, ond dylech chi barhau i'w gadw'n berthnasol ac yn gryno
- Ar eich tudalen gyntaf, cofiwch gynnwys eich cyflawniadau academaidd, eich diddordebau ymchwil a'ch sgiliau arbenigol
- Cofiwch gynnwys gwybodaeth arall, os yw'n berthnasol, ar ganlyniadau eich ymchwil a'ch gwaith yn y dyfodol, aelodaeth broffesiynol a grantiau rydych chi wedi'u derbyn i wneud eich ymchwil
- Ysgrifennwch mewn ffordd sy'n galluogi pobl heb eich cefndir academaidd i allu ei ddeall

Gweler enghraifft o CV academaidd
a lawrlwythwch templed o CV academaidd ar ein gwefan.

## CV addysgu

Defnyddiwch CV addysgu i wneud cais am swydd addysgu.
Mae CV addysgu yn amlygu addysgu a phrofiad perthnasol nad yw'n ymwneud ag addysgu, cyflawniadau mewn addysg a sgiliau perthnasol.
Awgrymiadau da:
- Dechreuwch gyda'ch profiad addysgu a phrofiad arall yn yr ysgol, gan gynnwys unrhyw waith gwirfoddol. Mae hyfforddi chwaraeon, gweithio gyda grwpiau ieuenctid a swyddi mewn gwersylloedd haf i gyd yn berthnasol
- Cofiwch gynnwys manylion am eich cyflawniadau addysgol fel athro, o'r hyfforddiant athrawon ei hun i fodiwlau prifysgol perthnasol eraill
- Ychwanegwch sgiliau a allai fod yn ddefnyddiol fel arweinyddiaeth, TG, sgiliau cerddorol neu ieithyddol
- Ychwanegwch hobïau a diddordebau os ydynt yn berthnasol i'r swydd
- Ychwanegwch fanylion 2 ganolwr, un o'ch ymarfer dysgu ac un o'ch hyfforddiant athrawon

Gweler enghraifft o CV addysgu
a lawrlwythwch templed o CV addysgu ar ein gwefan.

## CV cyfreithiol

Os ydych chi'n gwneud cais am swydd gyfreithiol fel cyfreithiwr neu gontract hyfforddai ar ôl ysgol y gyfraith, dylech ddefnyddio CV cyfreithiol neu y gyfraith.
Mae CV cyfreithiol yn tynnu sylw at eich cefndir addysgol a'ch profiad gwaith cyfreithiol, gan gynnwys lleoliadau gwaith a chynlluniau gwyliau.

Awgrymiadau da:
- Ar gyfer contract hyfforddai, nid oes rhaid i chi gynnwys proffil personol oherwydd bydd eich llythyr eglurhaol yn dweud pwy ydych chi a pham rydych chi'n gwneud cais. Yn nes ymlaen yn eich gyrfa, bydd yn rhaid i chi  gynnwys hwn
- Amlygwch eich ymwybyddiaeth fasnachol trwy restru eich holl brofiad masnachol. Cofiwch gynnwys tasgau a chyfrifoldebau

Gweler enghraifft o CV cyfreithiol
a lawrlwythwch templed o CV cyfreithiol ar ein gwefan.

## CV fideo

Recordiad byr yw CV fideo, fel arfer 1 i 3 munud o hyd. Mae'n tynnu sylw at eich sgiliau a'ch profiad ond hefyd yn caniatáu i chi ddangos eich personoliaeth i gyflogwyr.
Efallai y byddwch yn defnyddio CV fideo i wneud cais am waith yn y cyfryngau, mewn marchnata a gwerthu neu mewn rhai rolau creadigol. Ond weithiau gallwch ddefnyddio CV fideo mewn meysydd gwaith eraill hefyd.
Mae'n bwysig gwirio a yw eich darpar gyflogwr yn disgwyl CV fideo. Mewn rhai achosion, bydd CV fideo yn eich helpu i sefyll allan. Ond

ni fydd hyn yn gweithio gyda chyflogwr sy'n ffafrio CVs neu ffurflenni cais ysgrifenedig.
Mae yna apiau ffôn clyfar sy'n gadael i chi ffilmio, golygu, llwytho a rhannu fideos. Os ydych chi'n teimlo'n ddigon hyderus, gallech greu eich CV fideo gan ddefnyddio eich ffôn.
Efallai y byddai'n well gennych ddefnyddio offer fideo priodol, gan gynnwys camera, tripod a meddalwedd golygu fideo. Bydd hyn yn rhoi golwg broffesiynol iawn i'ch fideo.
Os nad oes gennych sgiliau golygu da, efallai hoffech ofyn am help.
Gallwch naill ai uwchlwytho eich CV fideo i wefan fel YouTube neu ei e-bostio'n uniongyrchol at gyflogwyr.
Gwnewch yn siwr bod y fideo "heb ei restru" ac nid yn gyhoeddus.
Mae hyn yn golygu y gallwch chi anfon y ddolen at gyflogwyr, ond nid yw ar gael i unrhyw un arall.
Cofiwch wirio hefyd bod unrhyw gyflogwr rydych chi'n anfon eich fideo ato yn gyflogwr dilys.

**Awgrymiadau da ar gyfer CV fideo**
Cyn i chi benderfynu creu CV fideo:

- Ymchwiliwch i'r cwmni i weld a fydden nhw'n disgwyl CV fideo gennych chi. Os oes ganddynt ffurflen gais safonol yn lle hynny, gwnewch ymdrech wrth lenwi honno
- Ystyriwch a fyddai CV fideo yn eich dangos chi ar eich gorau. Os ydych chi'n teimlo'n anghyfforddus o flaen camera, efallai nad hyn yw'r ffordd orau o ddangos eich rhinweddau gorau

Os byddwch chi'n penderfynu creu CV fideo:

- Edrychwch ar-lein am enghreifftiau o CVs fideo i'ch ysbrydoli. Peidiwch â'u copïo
- Recordiwch y fideo sawl gwaith nes eich bod chi'n hapus
- Byddwch yn broffesiynol o ran yr hyn rydych chi'n ei ddweud a sut rydych chi'n edrych
- Meddyliwch am y ffordd orau i ddangos eich sgiliau. Byddwch yn greadigol
- Cadwch e mor fyr â phosibl a gwnewch yn siwr ei fod yn berthnasol
- Gofynnwch i rywun ei wylio a rhoi adborth i chi

Gallwch ddod o hyd i ganllaw creu fideo CV yn yr adran Adeiladu CV ar gyrfacymru.llyw.cymru.

## CVs creadigol eraill

Defnyddiwch CV creadigol ar gyfer swyddi fel dylunydd graffeg, golygydd ffilm/fideo a dylunydd gemau. Defnyddir y math hwn o CV yn ehangach hefyd yn y sector creadigol.
Gall CV Creadigol gymryd ffurf dogfen gydag elfennau mwy gweledol neu greadigol, eich gwefan eich hun, e-bortffolio ac ati.
Gall CVs creadigol wir arddangos eich sgiliau creadigol heb i chi orfod eu disgrifio. Ond, gall meddalwedd sganio neu ddosrannu CVs gael trafferth eu darllen.
Darganfyddwch a yw'r cwmni yr ydych yn gwneud cais iddo yn disgwyl CV creadigol. Anfonwch un ysgrifenedig bob tro hefyd.
Mae CVs ffeithlun a CVs ar-lein yn ddau fath o CV creadigol.

## CV ffeithlun

Mae CV ffeithlun yn arddangos eich profiad yn weledol yn lle mewn geiriau.
Gallech chi greu graff o'ch sgiliau, gan ddangos sut rydych chi wedi'u datblygu. Dylai'r ffeithlun ddangos pa sgiliau rydych chi'n eu defnyddio yn y gwaith bob dydd.
Bydd hi'n haws creu CV ffeithlun os oes gennych sgiliau dylunio da.
Efallai y bydd y fersiynau rhad ac am ddim o offer ar-lein fel Canva yn ddefnyddiol, ond gwyliwch rhag taliadau ychwanegol.

## CV ar-lein

Bydd cyflogwyr yn chwilio amdanoch chi ar-lein pan fyddwch yn gwneud cais. Bydd cael presenoldeb ar-lein sy'n gweithredu fel CV yn sicrhau eu bod yn sylwi arnoch chi am y rhesymau cywir.
Mae llawer o wefannau swyddi yn rhoi'r opsiwn i chi adeiladu eich CV ar eu gwefan, yn ogystal ag i uwchlwytho CV sydd gennych eisoes.
Ar LinkedIn a safleoedd eraill gallwch greu eich "tudalen lanio broffesiynol" eich hun.
Mae About.me yn caniatáu i chi gyflwyno eich hun a chynnwys gwybodaeth allweddol y byddech yn dod o hyd iddi ar eich CV.
Gallwch hefyd bostio dolenni i'ch gwefan eich hun, cyfryngau cymdeithasol neu flogiau neu eich e-bortffolio.
Mae Global Bridge hefyd yn caniatáu i chi greu eich e-bortffolio eich hun.

## Cynnwys llythyr eglurhaol

**Llythyr eglurhaol**

Fel arfer bydd angen i chi anfon e-bost neu lythyr gyda'ch CV (ac weithiau gyda'ch cais) yn cyflwyno'ch hun i'r cyflogwr. Mae mwy a mwy o gyflogwyr yn defnyddio llythyr eglurhaol i benderfynu os yw ymgeisiydd yn addas.

Mae e-bost eglurhaol neu lythyr yn bwysig gan mai dyma'ch cyswllt cyntaf gyda'r cyflogwr. Gwnewch argraff dda yn eich llythyr eglurhaol/e-bost ac mae'r cyflogwr yn fwy tebygol o ddarllen eich CV.

3 Rheol i'w cofio wrth ddrafftio llythyr eglurhaol

1. Beth yw'r swydd i chi'n gwneud cais amdani?
2. Pam fod diddordeb gyda chi yn y gwaith?
3. Pa sgiliau sydd gyda chi sydd gyda chi sy'n addas ar gyfer y swydd ddisgrifiad/manyleb y person?

Dylech chi gynllunio'ch llythyr eglurhaol/e-bost fel hyn:

- Paragraff agoriadol i esbonio pa rôl i chi'n gwneud cais amdani a ble weloch chi'r swydd yn cael ei hysbysebu
- Gallai'r adran nesaf gynnwys ychydig o baragraffau ond yn y bôn dylai amlygu eich sgiliau a'ch profiad sy'n eich gwneud yn addas ar gyfer y swydd
- Paragraff olaf yn dweud y byddwch yn edrych ymlaen at glywed gan y cwmni, neu gallech ddweud eich bod ar gael i drafod y rôl
- Cofiwch nodi yn y llythyr eich bod wedi atodi/ amgáu eich CV

Gweler enghraifft o lythyr cais isod.

**Llythyr ar hap**

E-bost neu lythyr yw hwn at gyflogwr nad yw wedi hysbysebu swydd, ond a allai fod â'r math o waith yr ydych yn chwilio amdano ar gael:

- Ceisiwch gyfeirio eich llythyr/e-bost at berson a enwir i'w anfon ato — yn aml y Rheolwr Personél neu Adnoddau Dynol, rheolwr y cwmni neu'r perchennog.
- Nodwch eich rheswm dros ysgrifennu (gweler yr enghraifft isod)
- Eglurwch pam fod gennych ddiddordeb mewn gweithio i'r cyflogwr hwnnw
- Dywedwch wrthynt pa sgiliau a phrofiad sydd gennych i'w cynnig. Rhaid i'r rhain fod yn berthnasol i'r math o waith yr ydych yn chwilio amdano

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymchwilio i'r cwmni yn gyntaf cyn ysgrifennu. Bydd hyn yn eich helpu i weithio allan pa sgiliau y gallent fod yn chwilio amdanynt. Yna gallwch gynnwys y rhain yn eich llythyr neu e-bost ar hap.



Mr Peter Jones
33 Stryd John
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 9ZZ
Ffôn: 01656 777444
Ebost: peter.jones657@mail.com

25 Medi 2022

FAO Jimmy Bloggs
Rheolwr Personél
Welsh Water Meter Reading Services Ltd
Uned 33 Enterprise Walk
The Enterprise Estate
Caerdydd
CF25 7PD

Annwyl Mr Bloggs

CYF: Swydd Darllenydd Mesurydd (cyfeirnod 556027)

Rwy'n ysgrifennu i wneud cais am swydd Darllenydd Mesurydd gyda Dŵr Cymru, ar ôl colli fy swydd wedi 16 mlynedd o brofiad gyda fy nghyflogwr blaenorol. Gwelais y swydd yn cael ei hysbysebu ar wefan Indeed.

Fel y gwelwch o fy CV sydd wedi ei atodi, mae gennyf brofiad helaeth o weithio ym myd diwydiant, yn yr awyr agored ac mewn rolau ymarferol. Rwy'n gyfarwydd â gweithio mewn amgylchedd lle mae gwaith tîm a thargedau yn chwarae rhan bwysig yn y drefn ddyddiol. Fel arweinydd tîm mewn ffatri leol, defnyddiais fy sgiliau negodi a threfnu i wella cynhyrchiant ein tîm 30 y cant.

Dwi'n addasadwy ac yn hyblyg, yn barod ac yn awyddus i ddysgu, ac yn dysgu sgiliau newydd yn gyflym. Wrth ddechrau rôl goruchwyliwr CNC, dysgais sut i reoli offer cyfrifiadurol newydd o fewn wythnos, er mwyn gallu hyfforddi cydweithwyr.

Yn ogystal, rwy'n teimlo fy mod yn hynod o dda am wneud i eraill deimlo'n gyfforddus, ac rwyf bob amser yn siriol, yn gwrtais ac yn ddibynadwy, gan gyfathrebu'n effeithiol ag eraill.
Rwy'n teimlo y byddai'r cyfuniad o fy sgiliau a fy mhrofiad yn fy ngwneud yn ymgeisydd delfrydol ar gyfer swydd yn eich sefydliad a'r heriau newydd a ddaw yn ei sgil.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan ac rydw i ar gael ar gyfer cyfweliad unrhyw bryd.

Yr eiddoch yn gywir

Peter Jones

Mr John Smith
33 Stryd Jameson
Pontypridd
CF99 9YY
Ffôn: 01234 771424
Ebost: johnsmith555@mail.com

25 Medi 2022

Ms Janet Rees
Rheolwr Gyfarwyddwr
Goodlook Blinds
Parc Menter y Cymoedd
Pontypridd
CF99 6ZN

Annwyl Ms Rees

Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â chyfleoedd cyflogaeth gyda'ch cwmni gan fy mod yn awyddus i sicrhau cyflogaeth gyda sefydliad lleol, llwyddiannus.

Fy enw i yw John Smith ac rwyf wedi darparu fy CV cyfredol er gwybodaeth i chi.

Mae gen i sawl blwyddyn o brofiad yn y sector manwerthu. Tra'n gweithio gyda manwerthwr dillad gwely lleol, cynyddais werthiant math penodol o ddillad gwely 50 y cant trwy arddangos y cynnyrch hwn yn fwy amlwg.

Mae gen i sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Rwy'n helpu cwsmeriaid yn rheolaidd i ddewis cynhyrchion a chefais ganmoliaeth gan y rheolwyr am helpu cwsmeriaid anabl o amgylch y siop lle'r oeddwn yn cael fy nghyflogi.

Rwy'n gyfarwydd â gweithio fel rhan o dîm ac yn annibynnol, gan gwblhau tasgau'n llwyddiannus i'r safon uchaf posibl o fewn graddfeydd amser penodol. Rwy'n addasadwy ac yn hyblyg yn y gweithle ac yn barod i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant pellach sydd ar gael i mi. Teimlaf fod y cyfuniad o'm sgiliau a'm profiadau yn fy ngwneud yn ymgeisydd delfrydol ar gyfer swydd o fewn eich sefydliad.
Edrychaf ymlaen at glywed gennych

Yr eiddoch yn gywir

John Smith

# Rhestr wirio beth i'w wneud a beth i'w osgoi

## Cofiwch:

- Gall cyflwyniad eich CV fod yr un mor bwysig â'r cynnwys
- Yn olaf, pan fyddwch wedi cwblhau eich CV, gwiriwch yr holl bwyntiau isod. Cofiwch os nad yw eich CV yn edrych yn broffesiynol efallai na fydd y cyflogwr hyd yn oed yn ei ddarllen!

## Beth i'w wneud:

- Defnyddiwch gynllun a ffont syml. Mae ffontiau fel Arial neu Times New Roman yn broffesiynol ac yn hawdd i'w darllen
- Defnyddiwch benawdau a phwyntiau bwled clir
- Cofiwch gynnwys y wybodaeth fwyaf perthnasol ar gyfer y swydd
- Cofiwch gynnwys geiriau gweithredu sy'n amlygu cyflawniadau, megis creu, gwella, cynhyrchu a chyflawni
- Byddwch yn gryno. Fel arfer, ni fyddai CV yn fwy na 2 dudalen, ac 1 dudalen os ydych yn gadael yr ysgol
- Gall rhai CVs fod yn hirach, er enghraifft CVs academaidd, ond yn dal i gadw gwybodaeth yn berthnasol ac yn gryno
- Darllenwch drwy eich CV a chywiro unrhyw wallau sillafu a gramadeg. Gofynnwch i eraill ei wirio a darllenwch yn uchel i chi'ch hun hefyd
- Ychwanegu hobïau a diddordebau os ydynt yn berthnasol i'r swydd, er enghraifft hyfforddi chwaraeon neu waith ieuenctid ar gyfer swydd addysgu.
- Defnyddiwch eich CV i'ch helpu i ysgrifennu ffurflenni cais ac i helpu mewn cyfweliadau
- Cofiwch gadw eich CV yn gyfredol
- Anfonwch lythyr cais neu e-bost gyda'ch CV bob amser.

## Beth i'w osgoi:

- Cofiwch gynnwys bopeth rydych chi erioed wedi'i wneud i greu argraff. Mae gan gyflogwyr lawer o CVs i'w darllen felly dylech ond gynnwys y wybodaeth fwyaf perthnasol
- Cynnwys pethau nad ydynt yn wir. Gall cyflogwyr wirio ac os canfyddir eich bod wedi dweud celwydd ar CV gallech golli eich swydd
- Cael "Curriculum Vitae" fel y teitl; dy enw llawn ddylai'r teitl fod. Dylai enw'r ffeil gynnwys dy enw hefyd
- Defnyddio dyluniad lliwgar neu gynnwys lawer o graffeg neu ffotograffau. Yr eithriad i hyn yw os ydych chi'n llunio CV creadigol pan fyddwch chi'n gwneud cais am swydd greadigol
- Cael adran hobïau a diddordebau gyda diddordebau mwy cyffredinol fel darllen, cymdeithasu, cerdded a nofio. Dylech gynnwys hobïau ond lle maent yn berthnasol.


**Os ydych yn gwneud cais am swydd benodol:**

- Gwiriwch eich CV yn erbyn y Swydd Ddisgrifiad i sicrhau bod sgiliau'n cael eu cynnwys
- Ceisiwch ganolbwyntio'r CV ar wybodaeth sy'n berthnasol i'r swydd

## Mynnwch gymorth gan Gyrfa Cymru

Offeryn dysgu ar-lein yw'r Academi Sgiliau i Lwyddo lle gallwch ddysgu mwy am lunio CVs, paratoi ar gyfer cyfweliad a llawer mwy. Ewch i'r **dudalen Sgiliau i Lwyddo** ar wefan Gyrfa Cymru i gael gwybod sut i gofrestru.

- Gallwch gysylltu â ni ar y ffôn ar 0800 028 4844, drwy e-bost **post@careerswales.gov.wales** neu drwy sgwrs ar-lein
- Gallwch hefyd ymuno â ni ar y cyfryngau cymdeithasol ar Facebook, Twitter, Instagram, YouTube a LinkedIn
- Mae ein gwasanaeth ffôn a sgwrs ar-lein ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau, 8:00 AM i 6 PM a 9:00 AM i 4:30 PM ar ddydd Gwener
- Mae llawer mwy ar ein gwefan **gyrfacymru.llyw.cymru**





## Nodiadau

Croeso i chi wneud eich nodiadau eich hun yma

### Eich manylion cyswllt

### Proffil personol

### Sgiliau

## Cyflogaeth a / neu brofiad gwaith

## Addysg a / neu gymwysterau hyfforddiant



## Gwybodaeth ychwanegol

## Geirdaon